OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 2705

# Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012

## RHAN 5 E+W

Y Gofynion ar gyfer Caen Cellwlos Atgynyrchiedig

### Dehongli'r Rhan hon E+W

**11.**—(1) Yn y Rhan hon—

(a) ystyr "caen cellwlos atgynyrchiedig" ("*regenerated cellulose film*") yw deunydd haenen denau a gafwyd o gellwlos a goethwyd sy'n deillio o bren neu gotwm nas ailgylchwyd, gydag ychwanegiad o sylweddau addas neu beidio, naill ai yn y màs neu ar un arwyneb neu'r ddau arwyneb, ond nad yw'n cynnwys casinau synthetig o gellwlos atgynyrchiedig;

(b) ystyr "CCAH" ("*URCF*") yw caen cellwlos atgynyrchiedig heb araen;

(c) ystyr "CCAG" ("*CRCF*") yw caen cellwlos atgynyrchiedig gydag araen sy'n deillio o gellwlos; a

(d) ystyr "CCAP" ("*PRCF*") yw caen cellwlos atgynyrchiedig gydag araen sydd wedi ei chyfansoddi o blastigion.

(2) Mae'r Rhan hon yn gymwys i gaen cellwlos atgynyrchiedig—

(a) sydd ynddo'i hun yn ffurfio cynnyrch gorffenedig; neu

(b) sy'n rhan o gynnyrch gorffenedig sy'n cynnwys deunyddiau eraill,

ac y bwriedir iddo ddod i gysylltiad â bwyd, neu sydd, drwy gael ei ddefnyddio at y diben hwnnw, yn dod i gysylltiad â bwyd.

[F1](3) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Rhl. 11(3) wedi ei hepgor (31.12.2022) yn rhinwedd Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 (O.S. 2022/1362), rhlau. 1, **2(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 11 mewn grym ar 20.11.2012, gweler **rhl. 1**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012, Adran 11.